# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## CLA683 - Rheoliadau Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygio) (Cymru) 2016

## Gweithdrefn

Negyddol

## Cefndir

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015 a Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014. Mae'r newidiadau'n ymwneud â'r agweddau gweinyddol ar y Cynllun Taliad Sylfaenol a gwelliant i'r Rheoliadau Trawsgydymffurfio i ganiatáu i ffermwyr adael arwyneb garw dros y gaeaf.

## Craffu Technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Craffu ar rinweddau

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

Yn unol ag adran 11A (4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth at y Llywydd ar 12 Chwefror 2016 i'w hysbysu y bydd y "rheol 21 diwrnod" yn cael ei thorri wrth gyflwyno'r offeryn hwn. Nododd y llythyr fod Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru wedi cael cyfarwyddyd i ddirymu ac ail-wneud y Rheoliadau er mwyn caniatáu cyfnod priodol o 21 diwrnod rhwng gosod y Rheoliadau a'r dyddiad y byddant yn dod i rym. Gosodwyd y Rheoliadau sy'n dirymu'r offeryn hwn (Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) ar 25 Chwefror 2016 a byddant yn dod i rym ar 18 Mawrth.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**21 Ionawr 2016**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales